Coleg Gwent

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Plentyndod



**Yn gryno**

Byddwch yn astudio'r agweddau proffesiynol o weithio mewn gofal plant, o gyfathrebu â chydweithwyr i ddeddfwriaeth a hawliau plant. Byddwch hefyd yn astudio pob agwedd ar blentyndod, o iechyd a datblygiad plant i addysg a chwarae.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...ydych eisiau cymryd y cam nesaf yn eich gyrfa

...rydych eisiau ennill cymwysterau ffurfiol ar lefel gradd

...rydych eisiau ehangu eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad mewn astudiaethau plant

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bydd y cwrs hwn yn eich darparu â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sydd eu hangen arnoch i weithio'n llwyddiannus gyda phlant o bob oed. Byddwch hefyd yn datblygu rhinweddau

personol megis hyblygrwydd a chymhelliant, sy'n hynod werthfawr yn y gweithle ac ar gyfer astudiaeth bellach.

Cewch eich asesu drwy amrywiaeth o aseiniadau a gweithgareddau ymarferol a fydd yn cael eu harsylwi yn eich amgylchedd.

Blwyddyn 1 - Modiwlau Lefel 4

FC1D005 - Arwain Arfer o fewn Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc (LPwSCYP) - Portffolio
PE1S047 - Sgiliau Astudio ar gyfer Addysg Uwch
FC1S018 - Cyflwyniad i Ymchwil gyda Phlant a Phobl Ifanc
FC1S020 - Cymhwyso Theori i Ddatblygiad Cyfannol Plant a Phobl Ifanc
FC1S017 - Arweinyddiaeth a Chynhwysiant o fewn Arfer sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn

Blwyddyn 2 - Modiwlau Lefel 5

FC2D029 - Portffolio Arfer Uwch mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (APCYPS).
FC2S013 - Materion Cwricwlwm
FC2S036 - Iechyd a Lles Plant a Phobl Ifanc
FC2S037 - Chwarae a Hamdden
FC2S029 - Diogelu Plant a Phobl Ifanc

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd angen i chi sicrhau 100 awr mewn lleoliad gwaith, fel gwirfoddolwr neu gyflogaeth â thal.

Bydd disgwyl i chi ymrwymo i o leiaf 20 awr o astudiaeth annibynnol ar adegau allweddol o'r flwyddyn.

Byddwch yn mynd i'r coleg am un diwrnod llawn sy'n cychwyn yn y prynhawn bob wythnos.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i brofiad yn y diwydiant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gyda’r sgiliau a’r profiad y byddwch yn eu datblygu ar y cwrs hwn, gallwch weithio mewn ystod o feysydd gofal plant.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ar ôl cwblhau’r radd sylfaen yn llwyddiannus, gallwch symud ymlaen yn awtomatig i flwyddyn olaf y BSc (Anrh) mewn Astudiaethau Plentyndod ym Mhrifysgol De Cymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae gan ddysgwyr ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent y dewis ychwanegol i astudio ar gyfer Diploma Lefel 5 City & Guilds mewn Gweithio gyda Phlant a Phobl, sydd yn ofynnol ar gyfer cydnabod sgiliau'r sector yn y maes hwn.

Rhoddir masnachfraint ar gyfer y cwrs hwn gan Brifysgol De Cymru.

Y cod UCAS yw: LX53